CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 17 Mawrth 2022 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 11 Mawrth 2022.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir McKerlich (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Goddard, Goodway, Henshaw, Gavin Hill-John, Hinchey, Hopkins, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, Michael, Molik, Naughton, Owen, Parkhill, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sangani, Sattar, Simmons, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

146 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Morgan, Stubbs, Bowen-Thomson, Phillipa Hill-John, Melbourne a Howells

147 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

148 : RHYDDID DINAS CAERDYDD

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried rhoi Rhyddid Dinas a Sir Caerdydd i HMS Cambria i gydnabod ei hanes hir a nodedig fel cartref y Llynges Frenhinol yng Nghymru a'i rôl ganolog o ran hyfforddi a threfnu Milwyr Wrth Gefn y Llynges Frenhinol i gefnogi'r Llynges Frenhinol ar y môr a'r glannau, gartref a thramor.

PENDERFYNWYD:

Fe wnaeth y Cyngor ystyried a chytuno i'r canlynol:

1. Mynediad fel Rhyddfreiniaid Anrhydeddus Dinas a Sir Caerdydd HMS Cambria o dan Adran 249 Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gydnabod ei hanes hir a nodedig fel cartref y Llynges Frenhinol yng Nghymru a'i rôl ganolog o ran hyfforddi a threfnu Milwyr Wrth Gefn y Llynges Frenhinol i gefnogi'r Llynges Frenhinol ar y môr a'r glannau, gartref a thramor.

Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr wneud trefniadau addas ar gyfer rhoi Rhyddid y Ddinas yn seremonïol i HMS Cambria, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Arglwydd Faer.